

**Cymdeithas Gwenynwyr Cymru**  
**CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU**

Elusen Gofrestredig Rhif 509929



## **POLISI IECHYD A DIOGELWCH CGC**

Arweiniad i ymddiriedolwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr eraill ar  
ran CGC

Adolygir y polisi hwn yn barhaus, o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd CGC yn  
diwygio'r polisi hwn, ar ôl ymgynghori, lle y bo'n briodol.

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: mis Rhagfyr 2020

## 1. Cyffredinol

Polisi CGC yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles ei gwirfoddolwyr, ac unrhyw berson arall a allai gael ei effeithio gan ei gwaith. Bydd y gymdeithas yn gwneud asesiadau o risg ac yn cyflwyno trefniadau sydd, cyhyd ag y bo'n ymarferol bosibl, yn sicrhau bod:

- a). Lleoedd lle mae gwirfoddolwyr yn gweithio neu'n cwrdd yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel
- b). Cyfarpar a systemau gwaith yn ddiogel a heb risg i iechyd
- c). Cyfleusterau lles digonol ar gael
- ch). Gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyllo'n cael eu darparu er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch ei gwirfoddolwyr, ei chyflenwyr, ei hymwelwyr ac unrhyw berson arall a allai gael ei effeithio gan ei gweithgareddau.
- d). Cyngor asesiadau risg a rheoli risg yn cael ei roi i gymdeithasau lleol yn unol â'r arweiniad diweddaraf gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE)
- dd). Risgiau'n cael eu trosglwyddo'n briodol naill ai i'r rhai sy'n gallu eu rheoli (e.e. y rhai sy'n arddangos neu'n cyflenwi mewn digwyddiadau) neu i osgoi unrhyw faich diangen ar yr aelodaeth drwy yswiriant.

## 2. Cyfrifoldebau

Y Tîm Rheoli ac yn benodol Ymddiriedolwyr CGC sydd â'r brif rôl o ran cynnal safonau iechyd, diogelwch a llesiant eu gwirfoddolwyr a byddant yn ystyried bod Iechyd a Diogelwch unrhyw un a allai gael ei effeithio gan ei gweithgareddau yr un mor bwysig â bod yn llais gwenyna yng Nghymru. Nhw fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod pobl yn cael eu nodi, bod systemau a phrosesau'n cael eu rhoi yn eu lle fel bod modd rhoi polisi iechyd a diogelwch CGC ar waith. Byddan nhw'n sicrhau bod Ymddiriedolwr yn cael ei neilltuo i ymgymryd â rheoli systemau a phrosesau o'r fath yn fanylach.

## 3. Y Cadeirydd

Bydd y Cadeirydd yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod pobl yn cael eu nodi, bod systemau a phrosesau'n cael eu rhoi yn eu lle fel bod modd rhoi polisi iechyd a diogelwch CGC ar waith. Bydd yn sicrhau bod Ymddiriedolwr yn cael ei neilltuo i ymgymryd â rheoli systemau a phrosesau o'r fath yn fanylach.

Yr Ymddiriedolwr â chyfrifoldeb penodol dros iechyd a diogelwch.

Bydd y person hwn, a elwir o hyn ymlaen yn Ymddiriedolwr Iechyd a Diogelwch yn:

- a). Rhoi arweiniad a chynghor i'r Pwyllgor Rheoli ar faterion iechyd a diogelwch

- b). Gweithio gyda'r Ysgrifennydd a'r Ymddiriedolwyr eraill i nodi ac i benodi swyddog iechyd a diogelwch o blith aelodau CGC
- c). Gweithio gyda'r Swyddog Iechyd a Diogelwch i nodi systemau a gweithdrefnau a fydd yn galluogi'r Aelod-Gymdeithasau a'u haelodau i weithio'n ddiogel, boed ar waith yr Aelod-Gymdeithas neu wrth weithredu fel gwirfoddolwyr ar ran CGC ac i bawb gydymffurfio â'r rheoliadau priodol. Efallai bydd y systemau a'r gweithdrefnau ar ffurf barod i CGC eu defnyddio neu ar ffurf templed i'w haddasu gan gymdeithasau unigol a byddant yn cael eu hatodi at y polisi hwn fel Trefniadau.
- ch). Adrodd o leiaf yn flynyddol ar barodrwydd iechyd a diogelwch CGC a lle y bo'n briodol ar y gweithgarwch iechyd a diogelwch mewn aelod-gymdeithasau
- d). Gweithio gydag Ymddiriedolwyr eraill a all fod â chyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd

#### 4. Swyddog Iechyd a Diogelwch:

Bydd y Swyddog Iechyd a Diogelwch yn:

- a). Gweithio gyda'r Ymddiriedolwr Iechyd a Diogelwch ac yn cyfathrebu ag ef/hi yn rheolaidd fel y bo angen
- b) Adolygu'r polisi hwn ac unrhyw ddogfennau atodol yn rheolaidd yng ngoleuni deddfwriaeth newidiol neu unrhyw beth arall y nodwyd bod angen ei newid (ac ar bob cyfrif o leiaf yn flynyddol) a gwneud unrhyw argymhellion am newidiadau i'r Ymddiriedolwyr.
- c) Datblygu trefniadau er mwyn i CGC gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol a chyflwyno trefniadau o'r fath i'r Ymddiriedolwyr eu cymeradwyo
- ch) Cynorthwyo aelod-gymdeithasau i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch neu ddeddfwriaeth debyg drwy ddatblygu dogfennau/gweithdrefnau/arweiniad templed y gall yr aelod-gymdeithasau hynny eu haddasu i'w defnyddio
- d) Er y bydd gan bob aelod-gymdeithas gyfrifoldeb i ymgymryd ag asesiadau risg, rhoi arweiniad yn gyffredinol ar asesu a rheoli risg ac yn enwedig cynorthwyo'r rhai sydd â chyfrifoldeb penodol dros ddigwyddiadau sy'n cael eu rhedeg gan CGC
- dd) Adrodd am unrhyw bryderon a all fod ganddo neu ganddi o ran y cydymffurfio presennol â deddfwriaeth neu ganllawiau Iechyd a Diogelwch eraill

## Trefniadau

### 1. Asesiad Risg:

Yn syml, asesiad risg yw archwiliad gofalus o'r hyn, mewn gweithgaredd fel cyfarfod mewn gwenynfa, a allai achosi niwed i bobl, fel y gallwch chi bwysu a mesur a ydych chi wedi cymryd digon o ragofalon neu a ddylech chi wneud mwy i atal niwed. Mae'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch yn darparu templed da ar gyfer gwneud hyn ar ei wefan a bydd CGC yn darparu enghraifft wedi'i chwblhau ar ei gwefan y gall aelod-gymdeithasau ei lawrlwytho a'i newid fel y bo'n briodol.

### 2. Cyfarfodydd a Hyfforddiant

Bydd gan gyfarfod neu ddigwyddiad hyfforddi a gynhelir gan CGC berson cyfrifol am iechyd a diogelwch a fydd yn sicrhau bod asesiad risg wedi'i gwblhau a bod ei ganfyddiadau'n berthnasol ac yn gyflawn a bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu.

### 3. Cynhadledd y Gwanwyn

Gwneir Asesiad Risg manwl ar gyfer Cynhadledd Y Gwanwyn a fydd yn ystyried unrhyw asesiadau presennol a ddarperir gan berchennog y lleoliad a rhai'r cyflenwyr / y rhai sy'n arddangos. Pwrpas yr asesiad fydd sicrhau diogelwch y gwirfoddolwyr a'r cyhoedd sy'n mynychu.

### 4. Ymgynghori

Mae cymdeithasau lleol yn cynrychioli rheng flaen gwenynfa yng Nghymru a nhw fydd â'r profiad mwyaf, y wybodaeth ddiweddaraf a'r cysylltiad â'r cyhoedd. Bydd CGC yn ymgynghori'n rheolaidd â chymdeithasau ynghylch materion diogelwch yn ystod cyfarfodydd y cyngor a bydd yn cofnodi unrhyw bryderon iechyd a diogelwch neu fentrau a godwyd. Defnyddir y wybodaeth hon i adolygu'r polisi hwn ac i benderfynu ar ba gymorth y mae angen ei roi.

### 5. Rhaeadru'r Polisi

Fel y nodwyd uchod, y cymdeithasau lleol fydd rheng flaen gwenynfa a'i wyneb cyhoeddus. Fel arfer nid yw'r cymdeithasau'n cyflogi unigolion ac felly ni fydd Rheoliadau Iechyd a Diogelwch gwirioneddol yn berthnasol yn benodol. Fodd bynnag, mae gan Gymdeithasau Lleol ddyletswydd gofal cyfraith gwlad i'w haelodau, i'w gwirfoddolwyr ac yn gyffredinol i aelodau o'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan eu gweithgareddau. Y ffordd orau o gyflawni'r ddyletswydd honno fydd drwy ddatblygu eu Polisi Iechyd a Diogelwch eu hunain a fydd yn ffurfioli unrhyw drefniant mewn polisi o'r fath. Drwy fod â pholisi o'r fath yn ei le a'i adolygu'n flynyddol, bydd y Gymdeithas yn gallu cydymffurfio ag unrhyw amodau/cadarnhad y mae Yswirwyr yn eu gosod arnyn nhw mewn polisiâu a brynwyd ar eu rhan gan CGC. Gall methu cydymffurfio ag amodau o'r fath olygu y gellid datgan bod unrhyw hawliad a wnaed yn erbyn y Gymdeithas yn annilys.

Arfer da fyddai nodi swyddog unigol a fydd yn gyrru'r mater yn ei flaen ac er efallai nad y person hwn bob amser fyddai'r un a fyddai'n gwneud unrhyw asesiadau risg angenrheidiol, byddai'n atgoffa'r rhai a ddylai wneud hynny ac yn adrodd yn ôl i'r Cadeirydd pan fydd angen. Dylai'r asesiadau risg fod yn lleiafswm y gofyniad ar gyfer yr eiddo a ddefnyddir, e.e. lleoliadau cyfarfodydd, gweithgareddau, digwyddiadau a gwenynfeydd aelod-gymdeithasau. Gall y fformat ar gyfer cyfrifoldebau ddilyn y rhai a nodir uchod ar gyfer CGC.